
**Atodiad 4**
**Dadansoddiad cryno o ymatebion yr ymgynghoriad**

**Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgolion meithrin**
Roedd rhan fwyaf yr ymatebion (92%) o blaid neu heb gynnwys sylwad ynghylch y newidiadau a gynigir i'r meini prawf derbyn i addysg feithrin (roedd 62% o'u plaid ac ni wnaeth 30% sylwadau amdanynt).


**Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgolion cynradd**
Roedd rhan fwyaf yr ymatebion (87%) o blaid neu heb gynnwys sylwad ynghylch y newidiadau a gynigir i'r meini prawf derbyn i addysg gynradd (roedd 57% o'u plaid ac ni wnaeth 30% sylwadau amdanynt) ac eithrio'r cynnig i ddiddymu'r maen prawf cyfeirio brawd/chwaer.


**Meini prawf pan fo mwy o geisiadau na lleoedd mewn ysgolion uwchradd**
Roedd rhan fwyaf yr ymatebion (88%) o blaid neu heb gynnwys sylwad ynghylch y newidiadau a gynigir i'r meini prawf derbyn i addysg uwchradd (roedd 80% o'u plaid ac ni wnaeth 8% sylwadau amdanynt).

O'r holl ymatebion, mae 8% o blaid Opsiwn A ac mae 79% o blaid Opsiwn B.





Roedd 83% o'r ymatebwyr y mae eu plentyn yn mynd i ysgol cyfrwng Saesneg yn ffafrio Opsiwn B, ond roedd 25% o'r ymatebwyr y mae eu plentyn yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg yn ffafrio Opsiwn A ac roedd 25% yn ffafrio Opsiwn B.




**Dadansoddiad codau post – Opsiwn A**


Mae dadansoddiad o'r codau post yn rhoi manylion yr ardaloedd lle cafwyd ymatebion o blaid Opsiwn A. Ardaloedd y codau post hyn yw: Cathays, Cyncoed, Llys-faen, Llanisien, Pen-y-lan, Plasnewydd a'r Rhath, sy'n cynnwys dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Caerdydd, Ysgol Uwchradd Cathays ac Ysgol Uwchradd Llanisien.




**Dadansoddiad codau post – Opsiwn A**

Mae'n werth sylwi bod 81% o'r ymatebwyr a oedd o blaid Opsiwn B yn byw yn ardaloedd codau post CF23 5, CF23 9, CF24 3 a CF24 4, sydd yn bennaf yn nalgylch Ysgol Uwchradd Caerdydd.

Roedd rhai o'r cyfeiriadau â'r codau post hyn yn nalgylchoedd Ysgol Uwchradd Cathays a/neu Ysgol Uwchradd Llanisien.




Dywedodd 184 o'r ymatebwyr a oedd o blaid Opsiwn B i ba ysgol yr aiff eu plentyn, ond 5 ymatebwr yn unig a oedd o blaid Opsiwn A a enwodd ysgol.

O’r 184 ymatebwr a oedd o blaid Opsiwn B, mae gan 52.2% ohonynt blentyn/plant yn Ysgol Gynradd Parc y Rhath ac mae gan 46.2% blentyn/plant yn Ysgol Gynradd Marlborough.